



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2012 Rhif 1428 (Cy.178)

IECHYD MEDDWL, CYMRU

Gorchymyn Iechyd Meddwl
(Gwasanaethau Iechyd Meddwl
Eilaidd) (Cymru) 2012

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

At ddibenion Rhannau 2 a 3 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 ("y Mesur"), mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn darparu nad yw gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol sy'n cael eu rhoi ar gael mewn ardal awdurdod lleol benodol o dan gynllun i'w hystyried fel gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd yn yr ardal awdurdod lleol honno.

Effaith erthygl 3 yw'r canlynol: nid yw'r gofynion sy'n ymneud â chydgysylltu a chynllunio gofal a thriniaeth a ddarperir gan Ran 2 o'r Mesur yn gymwys i unigolyn nad yw ond yn derbyn y gwasanaethau neu driniaeth sy'n cael eu rhoi ar gael fel gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol yn yr ardal awdurdod lleol lle y mae preswylfa arferol yr unigolyn hwnnw. Hefyd, ni fydd unigolyn nad yw ond wedi derbyn gwasanaethau o'r fath yn gymwys ar gyfer asesiad o dan Ran 3 o'r Mesur.

Mae erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn yn darparu y bydd gwasanaethau yn Lloegr, yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon, sy'n gyfwerth â gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd a ddarperir yng Nghymru, yn cael eu hystyried yn wasanaethau iechyd meddwl eilaidd at ddibenion penodol yn Rhan 3 o'r Mesur.

Effaith erthygl 4 yw galluogi oedolion sydd wedi derbyn y gwasanaethau hynny yn Lloegr, yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon, ond sydd bellach yn preswylio yng Nghymru, i fod yn gymwys ar gyfer asesiad o dan Ran 3 o'r Mesur, ar yr amod eu bod yn bodloni'r meinu prawf ar gyfer yr hawl a ddarperir yn adran 22 o'r Mesur.

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 No. 1428 (W.178)

MENTAL HEALTH, WALES

The Mental Health (Secondary
Mental Health Services) (Wales)
Order 2012

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

Article 3 of this Order provides that, for the purposes of Parts 2 and 3 of the Mental Health (Wales) Measure 2010 ("the Measure"), local primary mental health support services made available in a particular local authority area under a scheme are not to be regarded as secondary mental health services in that local authority area.

The effect of article 3 is that the requirements surrounding coordination and care and treatment planning provided by Part 2 of the Measure do not apply to an individual who is only in receipt of services or treatment which are made available as local primary mental health support services in the local authority area in which that individual is usually resident. Also, an individual who has received only such services will not be eligible for assessment under Part 3 of the Measure.

Article 4 of this Order provides that services in England, Scotland or Northern Ireland which are the equivalent of secondary mental health services provided in Wales are to be regarded as secondary mental health services for certain purposes in Part 3 of the Measure.

The effect of article 4 is to enable adults who have received such services in England, Scotland or Northern Ireland but who are now resident in Wales to be entitled to assessment under Part 3 of the Measure, provided they satisfy the entitlement criteria provided in section 22 of the Measure.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r buddiannau sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi gan y Tîm Deddfwriaeth Iechyd Meddwl, Yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with this Order. A copy can be obtained from the Mental Health Legislation Team, Department for Health, Social Services and Children, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2012 Rhif 1428 (Cy.178)

IECHYD MEDDWL, CYMRU

Gorchymyn Iechyd Meddwl
(Gwasanaethau Iechyd Meddwl
Eilaidd) (Cymru) 2012

Gwnaed

29 Mai 2012

Yn dod i rym

6 Mehefin 2012

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 49(4) a 52(2) o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010(1).

Gosodwyd draft o'r offeryn hwn gerbron Cynlliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 52(5)(a) o'r Mesur, a'i gymeradwyo gan benderfyniad Cynlliad Cenedlaethol Cymru.

Enwi, cychwyn a chymhwysedd

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd) (Cymru) 2012, a daw i rym ar 6 Mehefin 2012.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Mesur" ("the Measure") yw Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

Ystyr gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd at ddibenion Rhannau 2 a 3 o'r Mesur

3. Nid yw gwasanaethau a thriniaeth sydd yn cael eu rhoi ar gael fel gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol⁽²⁾ mewn ardal awdurdod lleol benodol

2012 No. 1428 (W.178)

MENTAL HEALTH, WALES

The Mental Health (Secondary
Mental Health Services) (Wales)
Order 2012

Made

29 May 2012

Coming into force

6 June 2012

The Welsh Ministers make this Order in exercise of the powers conferred by sections 49(4) and 52(2) of the Mental Health (Wales) Measure 2010(1).

A draft of this instrument, has been laid before the National Assembly for Wales in accordance with section 52(5)(a) of the Measure, and approved by resolution of the National Assembly for Wales.

Title, commencement and application

1.—(1) The title of this Order is the Mental Health (Secondary Mental Health Services) (Wales) Order 2012, and it comes into force on 6 June 2012.

(2) This Order applies in relation to Wales.

Interpretation

2. In this Order "the Measure" ("y Mesur") means the Mental Health (Wales) Measure 2010.

Meaning of secondary mental health services for the purposes of Parts 2 and 3 of the Measure

3. Services and treatment which are made available as local primary mental health support services⁽²⁾ in a

(1) 2010 mccc 7.

(2) *Gweler* adran 5 (ystyr "gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol") o'r Mesur am ystyr gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol.

(1) 2010 nawm 7.

(2) See section 5 (meaning of "local primary mental health support services") of the Measure for the meaning of local primary mental health support services.

o dan gynllun(1) i'w hystyried fel gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd(2) at ddibenion Rhan 2 (cydgysylltu a chynllunio gofal ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd) a Rhan 3 (asesiadau ar ddefnyddwyr blaenorol o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd) o'r Mesur yn yr ardal awdurdod lleol honno.

Ystyr gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd at ddibenion hawl i asesiad yn Rhan 3 o'r Mesur

4. Mae gwasanaeth a ddarperir yn Lloegr, yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon, sy'n gyfwerth â gwasanaeth iechyd meddwl eilaidd a ddarperir yng Nghymru, i'w hystyried yn wasanaeth iechyd meddwl eilaidd at ddibenion adran 22 (hawl i asesiad) ac adran 23 (asesiadau: y cyfnod rhyddhau perthnasol) o'r Mesur.

particular local authority area under a scheme(1) are not to be regarded as secondary mental health services(2) for the purposes of Part 2 (coordination of and care planning for secondary mental health service users) and Part 3 (assessments of former users of secondary mental health services) of the Measure in that local authority area.

Meaning of secondary mental health services for the purposes of entitlement to assessment in Part 3 of the Measure

4. A service provided in England, Scotland or Northern Ireland which is the equivalent of a secondary mental health service provided in Wales is to be regarded as a secondary mental health service for the purposes of section 22 (entitlement to assessment) and section 23 (assessments: the relevant discharge period) of the Measure.

Lesley Griffiths

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

29 Mai 2012

29 May 2012

© Hawlfraint y Goron 2012

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwsg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2012

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(1) *Gweler* adran 2 (cynlluniau ar y cyd ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol) ac adran 4 (methiannau i gytuno ar gynlluniau) o'r Mesur sy'n ymwnud â chynlluniau ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol mewn ardal oedd awdurdod lleol.

(2) *Gweler* adran 49 (ystyr gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd) o'r Mesur am ystyr gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

(1) See section 2 (joint schemes for the provision of local primary mental health support services) and section 4 (failures to agree schemes) of the Measure regarding schemes for the provision of local primary mental health support services in local authority areas.

(2) See section 49 (meaning of secondary mental health services) of the Measure for the meaning of secondary mental health services.